44 - Cerdd: Yr adar

Gwenoliaid

Ar wifrau'r pentref safant eu tro,
y pegiau dillad digyffro;
cyn ffarwelio.

Cyrff hyblyg fydd aberth i Neifion.
Bronnau gwynion, cyflau duon;
gynt yn gywion.

Ehedant yn heini fesul un,
ar adenydd chwimion cytûn;
oll namyn un.

O'i mynwes ddiledryw canig doeth.
Miniog gân y ffarwelio coeth,
cyn gwawr trannoeth.

Dwys distawrwydd dwg yfory;
colled yn arwyddo oerni:
yna'r noethni.

Lynda Ganatsiou (Pluen.)

Wrthi'n pilio winwns yn y gegin oedd Marged. Bob hyn a hyn codai ei braich dde a throi ei hwyneb yn gyfamserol i'r un cyfeiriad er mwyn sychu'r dagrau a rhedai lawr ei boch ar lewys ei ffrog. Ceisio twyllo ei mab a wnâi, gan gymryd taw'r winwns ag achosi'r dagrau. Sut bynnag, gwyddai Dafydd yn iawn beth boenai ei fam a rhywbeth hollol wahanol i'r winwns oedd gwraidd y broblem.

Lle unwaith bu *Tair-Onnen* yn gartref llawn dedwyddwch, roedd yr aelwyd yn un o ofid a thristwch bellach. Pan soniodd Dafydd am ei gynllun, trawodd yr ergyd Marged fel saeth ac oddi ar y diwrnod hwnnw ni allai dim yw dim codi ei hwyl. Roedd ar fin colli ei mab, nid i afiechyd anwelladwy, na chwaith i ferch ieuanc ag oedd wedi cipio ei galon, ond i wlad anghysbell na wyddai dim amdani.

Yng Nghymru fe'i ganwyd, yng Nghymru fe'i magwyd, ond yn y man byddai'n ei gadael a chael ei fabwysiadu gan wlad estron. Os deuai byth yn ôl i Gymru, mewn gwlad estron byddai'n cael ei gladdu. Gyrrau'r syniad hi i ben ei thennyn.

Bu'r wythnosau blaenorol yn rhai dyrys dros ben i Dafydd ag yntau yn gorfod penderfynu p'un ai gadael ar y daith hir a pheryglus hon neu beidio. Byddai taflu ceiniog i ddatrys ei benbleth wedi bod yn hawdd, ond roedd pethau'n fwy cymhleth na hyn: byddai'r canlyniad yn effeithio ar weddill ei fywyd.

Wedi myfyrio dros y peth, teimlai'n optimistaidd iawn a rhan helaeth ei ymennydd yn dweud taw gadael byddai orau; wedi'r cyfan, roedd y dirwasgiad economaidd yn creu anniogelwch. O'i gwmpas gwelai diflastod ac anobaith, a'r damweiniau yn y pyllau fel pe baent yn cynyddu. Roedd yn ddyn ieuanc a'i dyfodol o'i blaen.

Gwyddai y byddai ei deulu yn hiraethu ar ei ôl, a phwy a ŵyr os eu gwelai byth eto. Sut bynnag, os gadawai i'w feddwl rheoli ei galon, ni fagai byth y plwc.

Penderfynodd pacio'i bagiau a gadael.

Siomedigaeth a'i disgwyliai ym mhorthladd Lerpwl, pan hysbyswyd fod yn rhaid iddo aros yn yr unfan am dros fis gan fod y llong y tybiai yr hwyliai arni, y *Halton Castle*, heb ddychwel o'i thaith flaenorol.

Chwyrliai popeth fel trobwll yn ei ben. Dechreuodd amau ei benderfyniad.
Ai arwydd oedd hwn i'w rhwystro rhag gadael? Beth ddylai gwneud? Y peth hawsaf fyddai troi ar ei sodlau a dychwel i'r cynefin oedd yn gyfarwydd iddo; wedi'r cyfan anwaraidd iawn fyddai pethau yn y tir newydd ag anawsterau mawr yn ei hwynebu ar sail ddyddiol. Byddai cymaint o anfanteision i'w hwynebu, anfanteision na allai eu dychmygu'r funud honno.
Roedd wedi ystyried y ffeithiau hyn tro ar ôl tro o'r blaen a gwyddai na cheir y melys heb y chwerw.
Dyma'r eildro iddo gael y cyfle i benderfynu p'un ai gadael neu beidio: rhyfedd o beth! Teimlai ryddhad fod ganddo ychydig o amser cyn hwylio i newid ei feddwl os mynnai.
Roedd nifer ym mhlith yr ymfudwyr na allent fforddio talu am westy i deulu cyfan am gyhyd, a rhoesant y ffidil yn y to. Troi eu cefnau ar eu breuddwydion a dychwel i'w cartrefi yng Nghymru oedd eu unig ddewis.
Bob yn gam lleihaodd ei ansicrwydd ac adenillodd ei frwdfrydedd. Sylweddolodd na allai redeg adref bob tro'r ai rhywbeth o chwith. Ym môn ei

esgyrn credai fod pont i groesi pob anhawster a dyma beth a berodd iddo fod yn fwy penderfynol o lwyddo. Roedd mor awyddus i gyflawni ei freuddwyd a bod yn un o'r arloeswyr, d'oedd dim troi yn ôl. Rhaid oedd iddo fynd rhagddo.

A chanddo mis yn Lerpwl cyn gadael i Ariannin, ceisiodd diddanu ei hun. Cyn bo hir fe fyddai wedi ei gyfyngu ar fwrdd y llong yng nghwmni dieithriaid am ddeufis cyfan. Gan ei fod yn greadur cymdeithasol, manteisiodd siarad â'r teithwyr eraill mor aml â phosibl i gael dysgu rhywbeth ychwanegol amdanynt. Fel hyn, pan fyddai'n amser codi angor ni fyddent yn hollol ddieithriaid.

Ymysg ei gyd-deithwyr rodd 'na bobl o bob lliw a llun. Er hynny, o ardaloedd diwydiannol deiau'r mwyafrif ohonynt a naturiol felly yn lowyr. Ffeindiodd siarad â dynion o'r un cefndir a chanddynt yr un cwynion ag ef yn adfywiol. Gwariasant sawl noson yn cymharu pyllau glo ei gilydd, a fu hyn yn donig iddo ag yntau mor ifanc ac ar ei ben ei hun. Roedd y llanw wedi yn dechrau troi a dechreuodd mwynhau'r profiadau newydd.

Yn y man daeth y dynion a fu'n trefnu'r daith o hyd i long arall i'w cludo - *Y Mimosa*.

Nid llanc ofergoelus oedd o ran natur ond â sŵn hudolus yn yr enw Mimosa, credai efallai taw arwydd da oedd hwn.

Ymhen hir a hwyr caniatawyd i'r teithwyr fyrddio'r llong. Yn ddisymwth syrthiodd aer dros y bobl: cymysgwch o frwdfrydedd, anesmwythyd am y daith a phryder o beth i'w ddisgwyl.

Er ei fod yn bryderus o'r daith i ben draw'r byd, teimlodd ryddhad fod yr amser iddynt adael wedi cyrraedd.

Daeth gwên i'w hwyneb pan welodd y teithwyr cyntaf yn byrddio fesul dau - yn union fel y parau o anifeiliaid yn mynd i mewn i arch Noa! Dyna beth oedd ffair a ffwndwr!

Os fyddai'r tywydd yn dal i fod yn ffafriol, barn y capten oedd y byddent yn siŵr o adael trannoeth gyda throad y llanw.

Ni allai gredu, dyma fyddai ei drydydd tro i dynnu'n ôl: ei siawns olaf i benderfynu p'un ai sefyll neu beidio.

Unwaith iddo fyrddio'r llong fyddai dim troi yn ôl.

Trodd ei gefn ar y cei a byrddio'r llong gan adael ei dyfodol i dynged.

O'r diwedd roedd ei freuddwyd yn troi'n realiti. Roedd ar fwrdd y Mimosa yn un o'r arloeswyr dewr ar fin hwylio i wlad newydd - i'r wlad yr oedd wedi bod yn breuddwydio amdani gyhyd.

Pa beth fydd yno yn ei disgwyl? Duw yn unig a ŵyr.

Cododd ei law ar y gwylwyr oedd wedi dod i'r cei i ffarwelio â hwy.

Gwenodd. Roedd rhywbeth melys yn y gadael wedi'r cyfan.

Lynda Ganatsiou (Kilda.)